| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13/03/2017** |
| **Pwnc:** | **Perfformiad y Gwasanaethau Plant** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Llyr Bryn Roberts** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Llyr Bryn Roberts - Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau)**<br>01248 752 765<br>llyrbrynroberts@ynysmon.gov.uk<br><br>**Dafydd Bulman - Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes**<br>01248 752013 |
| **Aelodau Lleol** | **Yn berthnasol i bob Aelod** |

**1.0 Cefndir**

**1.1** Yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016, cytunwyd y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Plant yn paratoi adroddiad ar berfformiad y Gwasanaethau Plant i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Oherwydd yr arolygiad gan AGGCC ym mis Tachwedd, cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ym Mawrth 2017.

**1.2** Nododd y Pwyllgor Sgriwtini

- Ydi'r Pwyllgor yn fodlon y gall y Gwasanaethau Plant wella eu perfformiad?
- Oes gan aelodau unrhyw sylwadau neu bryderon eraill?

**1.3** Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at y Fframwaith Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, ynghyd â nifer o ddangosyddion perfformiad newydd sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn trawsnewid y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn casglu

a darparu gwybodaeth am berfformiad ar draws gofal cymdeithasol. Mae pwyslais ar ddata ansoddol a meintiol, a fframwaith ar gyfer mesur cynnydd er mwyn gwella gwasanaethau'n barhaus.

**1.4** Pan asesir plentyn neu oedolyn canolbwyntir ar 'Beth sy'n Bwysig' i'r unigolyn, gan ystyried eu hamgylchiadau unigol. Fel rhan o'r asesiad, byddwn yn mesur canlyniadau llesiant personol. Bydd hyn yn gysylltiedig â'r Canlyniadau Llesiant Cenedlaethol a nodir o fewn y Côd Ymarfer dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal â mesur canlyniadau unigol, bydd nifer fawr o ddangosyddion perfformiad allweddol yn parhau ar gyfer y Gwasanaeth.

**1.5** Ar hyn o bryd 'rydym yn adolygu a datblygu ffordd newydd o weithio ar gyfer 2017/18 ac yn gweithio i wreiddio'r newid o fewn y System Wybodaeth am Ofal Cymunedol yng Nghymru (WCCIS – system gofnodi electronig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol) sydd i fod i ddechrau yn Awst 2017.

## 2.0 Perfformiad Rheoli

**Tabl 1 - SCC / 025. % yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gwblhawyd yn unol â'r rheoliadau**

| Targed 2016/2017 | Coch Ambr Gwyrdd | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | 9 MIS CYNTAF | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 100% | | 82.69% | 82.98% | 74: 01% | 80% | 82.79% | 93.53% | 90.54% |
| Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar gyfartaledd | | | | | 136 | 112 | 91 | 78 |

**2.1** Ar ddiwedd Chwarter 1 yn 2014/15, roedd 78 o blant yn derbyn gofal; ar Ddiwedd Chwarter 3 yn 2016/17 roedd y nifer wedi cynyddu'n sylweddol i 136 o blant. Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cael effaith ar y dangosydd perfformiad hwn gan fod y Gwasanaeth wedi cael trafferth cwrdd â'r cynnydd yn y galw a'r angen i ymweld â nifer ychwanegol o blant / pobl ifanc, a hynny er gwaethaf cynnydd yn nifer y Gweithwyr Cymdeithasol. Mae'r Awdurdod

Lleol wedi gweld cynnydd o 20% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn 9 mis cyntaf y flwyddyn.

**2.2** Lliniaru - i wella'r safonau hyn, bydd y camau canlynol yn cael ei dilyn-

- Bydd system dracio yn cael ei ymestyn, wedi ei selio ar ymarfer da o fannau eraill; gan gyfuno y newid mewn strwythur ar gyfer Gwasanaethau Plant, bydd yn galluogi Rheolwyr Timau/Arweinwyr Ymarfer i sicrhau fod ymweliadau wedi ei cynnal pan mae staff yn absennol o'r gwaith (pan fo staff yn absennol neu i ffwrdd o'u gwaith oherwydd salwch).
- Ni fydd y gwasanaeth yn cyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ond bydd y DP diwygiedig yn cyfarch y materion sydd wedi arwain at ddirywiad mewn perfformiad sydd wedi digwydd ers i nifer o blant mewn gofal gynyddu.

**2.3** Yn ystod y 18 mis diwethaf, bu trosiant sylweddol o staff o fewn y Gwasanaeth ar lefel Rheolwyr Tîm a Gweithiwr Cymdeithasol. Mae hynny wedi parhau i gael effaith ar berfformiad. Er gwaethaf ymdrechion sylweddol i recriwtio, mae swyddi'n dal i fod yn wag ac mae'r trefniadau dros dro a wnaed yn cynnwys:

- Rheolwyr a Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaeth
- Secondio staff
- Penodi Gweithwyr Cymdeithasol amhrofiadol a rhai sydd newydd gymhwyso
- Rheolwyr yn cymryd cyfrifoldebau ychwanegol
- Trefniadau dros dro oherwydd bod y Pennaeth Gwasanaeth i ffwrdd o'i gwaith (absenoldeb a oedd wedi ei gynllunio).

**2.4** Mae'r ffaith bod 4 aelod o staff ar gyfnod mamolaeth a bod nifer wedi bod yn absennol oherwydd salwch am gyfnodau hir hefyd yn effeithio ar y gweithlu. Mae'r gyfradd salwch o fewn y Gwasanaeth ar hyn o bryd yn 11.11 diwrnod am bob swyddog Amser Llawn ar ddiwedd Chwarter 3. Y targed ar gyfer y Gwasanaeth am 2016/17 yw 10.5 diwrnod ac ni fydd yn cyrraedd y targed hwn.

Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gyfradd ar gyfer y flwyddyn lawn yn sylweddol well na'r 16.27 diwrnod a gollwyd am bob gweithiwr llawn amser yn 2015/16 (blwyddyn lawn).

**2.5** Mae cysylltiad clir rhwng breguster y gweithlu cyfredol a'r effaith ar berfformiad.

**Tabl 2 - PM24. Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol (42 diwrnod gwaith)**

| Targed 2016/2017 | CAG | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | 9 MIS CYNTAF | | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 100% | | 100% | 96.36% | 81.62% | 92.67% | | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

**2.6** Mae'r dangosydd perfformiad hwn yn mesur asesiadau gofal a chymorth amserol ar gyfer plant / pobl ifanc a gyfeiriwyd at y Gwasanaethau Plant. Fel y nodwyd yn 2.2, mae anawsterau staffio o fewn y Tîm sy'n cynnal yr asesiadau wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad yn ystod Chwarter 3. Arolygwyd y Gwasanaeth hefyd gan AGGCC yn ystod y cyfnod hwn a arweiniodd at alwadau ychwanegol oherwydd bod yr arolygiad yn canolbwyntio ar waith y tîm penodol hwn.

**Tabl 3 - PM32. Canran y plant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi newid ysgol o leiaf unwaith mewn cyfnod neu gyfnodau pan oeddent yn derbyn gofal, ac eithrio oherwydd trefniadau trosiannol, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth**

| Targed 2016/2017 | CAG | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | 9 MIS CYNTAF | | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15% | | 6.10% | 4.82% | 2.41% | 13.25% | | 17.39% | 18.52% | 20.0% |

**2.7** Y prif resymau pam mae plant sy'n derbyn gofal yn newid ysgol yw fel rhan o'r cynllun tymor hir ar gyfer y plentyn, er enghraifft mabwysiadu, lleoliad therapiwtig neu ddewis yr unigolyn i newid ysgol. Mae canran y plant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf yn erbyn cefndir o gynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae Graff 15 (yn Atodiad 3) yn dangos bod perfformiad Ynys Môn yn y chwarter isaf o gymharu â chyfartaledd Cymru yn 2015-16.

**Tabl 4 - PM33. Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn**

| Targed 2016/2017 | C A G | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | 9 MIS CYNTAF | | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | | 1.61% | 1.54% | 2.99% | 5.22% | | 9.26% | 3.41% | 7.79% |

**2.8** Mae'r dangosydd perfformiad hwn yn seiliedig ar leoliadau sefydlog sy'n cwrdd ag anghenion gofal a chymorth y plant sy'n derbyn gofal. Ar hyn o bryd mae'r perfformiad yn cwrdd â'r targed ar gyfer 2016/17 sy'n tystio i'r ymdrechion amlasiantaethol sylweddol a wnaed i sicrhau bod lleoliadau'n cwrdd ag anghenion plant ac sy'n dangos bod gofalwyr maeth yn cael eu cefnogi'n dda gan y Gweithwyr Cymdeithasol Gofal Maeth.

**3.0 Adnoddau**

**3.1** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol i fabwysiadu ymagwedd ataliol tuag at sicrhau llesiant. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith gyllid ychwanegol o £582,000 ar gyfer y Gwasanaethau Plant dros 3 blynedd i ddatblygu Tîm Teuluoedd Gwydn. Ffocws y Tîm hwn yw:

- *Atal* plant rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal pan nad oes angen
- *Dychwelyd* plant i'w cartref yn ystod yr 8 wythnos gyntaf o ofal
- *Adolygu* a dychwelyd yn ddiogel y plant sy'n derbyn gofal tymor hir

**3.2** Derbyniodd y Gwasanaeth £500,000 ychwanegol yn 2016/17 yn ei gyllideb graidd. Cafodd hyn ei gytuno i gynyddu y nifer o swyddi gweithwyr cymdeithasol o 5 swydd (3 gweithiwr cymdeithasol, 1 Uwch Weithiwr Rheoli Achosion Llys ac un swydd i gynyddu capasiti cadeirio Adolygiadau Plant Mewn Gofal); i ariannu'r galwadau ychwanegol yn sgil lleoliadau preswyl a maeth a gofynion y trefniant 'Pan wyf yn barod', sy'n caniatáu i bobl ifanc aros gyda'u gofalwyr maeth tan maent yn troi 21 oed. Mae hon yn gyllideb ychwanegol barhaol ar gyfer y Gwasanaeth.

**3.3** Yn ystod Chwarter 1, 2016/17, 'roedd y Gwasanaethau Plant yn rhagweld gorwariant o £270,000. Yn Chwarter 2, rhagwelwyd y byddai'r gwariant £683,000 yn uwch na'r gyllideb. Mae'r ffigyrau diweddaraf ar ddiwedd Chwarter 3 yn dangos y rhagwelir gorwariant o £718,000 ar hyn o bryd ar gyfer 2016/17. Achosir y gorwariant gan gynnydd yn nifer y blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â chynnydd yng nghost lleoliadau i gwrdd ag anghenion cymhleth y plant yn ein gofal. Mae'n anodd rhagweld a rheoli'r gofal, a gall un neu ddau o achosion cymhleth gynyddu gwariant yn sylweddol mewn cyfnod byr, gan ei gwneud yn anodd cynllunio a rheoli'r gyllideb.


## 4.0 Cynllun Gwella Gwasanaeth

**4.1** Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethau Plant yn cychwyn ailstrwythuro er mwyn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, fel yr amlinellir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Y nod fydd sefydlu strwythur rheoli gwell a fydd yn darparu Gwasanaeth cynaliadwy sy'n cefnogi rheolwyr, staff ac anghenion busnes. 'Rydym hefyd yn gweithio ar ddatblygu Strategaeth Gweithlu i recriwtio, cadw a datblygu staff parhaol, yn ogystal ag adolygu trefniadau goruchwylio. Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaeth hefyd yn canolbwyntio ar wella ansawdd asesiadau a pherfformiad a gweithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid.

**Atodiad 1**


# Ein Plant mewn Gofal
# Our Looked after Children

## Graff 1





Graff 1 uchod - Cynnydd mewn nifer o 74% ers 30/06/14
Graff 1 above – An increase in number of 74% since 30/06/14


## Graff 2




## Graff 3




## Graff 4



# Graff 5




Math o Leoliad sydd gan ein Plant mewn Gofal ar 31 Mawrth
Type of Placement for our Looked After Children
31/03/2014
31/03/2015
31/03/2016
31/12/2016
Mabwysiadu / Adoption
Teulu neu Ffrindiau / Family and Friends
Maethwyr Môn / Môn FCs
Maethwyr Preifat ym Môn / Private FCs in Môn
Maethwyr Preifat all-sirol / Private FCs out of county
Preswyl ym Môn / Môn Residential
Uned Mam a Babi / Mother and Baby Unit
Preswyl all-sirol / Residential out of county
Ysgol arbennig / Special School
Rhieni ym Môn / Parents in Môn
Rhieni all-sirol / Parents out of county
Byw'n Annibynnol / Independent Living
Uned Ddiogel / Secure Unit
Ysbaid yn unig / Respite only


**Atodiad 2**

## Ein Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
## Our Children on the Child Protection Register


### Graff 6





### Graff 7




**Graff 8**





**Graff 9**



## Graff 10





## Graff 11




**Atodiad 3**

**Perfformiad Llywodraeth Leol 2015-16**


**Graff 12**





Graff 13





Graff 14




Graff 15


Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol.
25
20
15
10
5
0
Conwy
Sir Gaerfyrddin
Caerffili
Torfaen
Sir Benfro
Caerdydd
Castell Nedd Port Talbot
Wrecsam
Ceredigion
Cymru
Sir y Fflint
Bro Morgannwg
Casnewydd
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Pen-y-bont ar Ogwr
Merthyr Tudful
Powys
Ynys Môn
Blaenau Gwent
Gwynedd
Sir Ddinbych
Sir Fynwy

Graff 16


Sgôr pwyntiau cyfartalog i blant sy'n derbyn gofal, mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol
600
500
400
300
200
100
0
Sir Benfro
Gwynedd
Abertawe
Sir Gaerfyrddin
Bro Morgannwg
Castell Nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr
Powys
Ynys Môn
Cymru
Caerdydd
Wrecsam
Sir y Fflint
Rhondda Cynon Taf
Sir Fynwy
Caerffili
Merthyr Tudful
Conwy
Blaenau Gwent
Torfaen
Casnewydd
Sir Ddinbych
Ceredigion